



---

## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 30 Mehefin 2017

---

### Yn bresennol:

Yr Ysgrifennydd Parhaol  
(Cadeirydd)  
Gawain Evans  
Andrew Goodall  
Natalie Pearson  
David Richards  
Elan Closs Stephens  
Ann Keane  
Adrian Webb  
Joanna Jordan  
Sarah Rhodes  
James Owen (yn dirprwyo dros  
Peter Kennedy)  
Tracey Burke (yn dirprwyo dros  
James Price)

### Yn cefnogi:

Jo Salway (Eitem 2)  
Toby Mason (Eitem 2)  
Des Clifford (Eitem 3)  
Helen Morris (Eitem 4)

### Ymddiheuriadau:

James Turner  
Jeff Godfrey

### Ysgrifenyddiaeth:

Sarita Marshall  
Catherine Ashford

## Perfformiad Llywodraeth Cymru

1. **Adroddiad Cyllid [Bwrdd(17)030]**
  - 1.1 Cyflwynodd Gawain Evans, y Cyfarwyddwr Cyllid, bapur yn amlinellu rhagolwg o'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2017/18, gan gynnwys y prif bwysau a'r cronfeydd wrth gefn.
  - 1.2 Clywodd y Bwrdd fod cynnydd da wedi ei wneud mewn perthynas â phwysau ariannol yn y sefydliadau iechyd yn dilyn ymyrraeth wedi ei thargedu.
  - 1.3 Trafodwyd y cwestiwn o ragolygon ariannol gan roi ystyriaeth i waith ynghylch risg tân yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell. Adroddodd Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant wedi creu panel arbenigwyr, o dan gadeiryddiaeth y Prif Gyngorydd Tân, i asesu diogelwch adeiladau cyhoeddus yng Nghymru. Cytunwyd y dylai'r newyddion diweddaraf am y gwaith hwn, gan gynnwys trafodaethau ynghylch cydymffurfedd yn y sector rhentu preifat, a'r goblygiadau ar gyfer cyllidebau Llywodraeth

## SWYDDOGOL

Cymru gael ei gyflwyno yng nghyfarfodydd nesaf y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC).

### 2. **Monitro Cynnydd Cyflawni – Diweddariad ar y Strategaeth Drawsbynciol [Eitem lafar]**

- 2.1 Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar ystyriaethau'r camau nesaf o ran y Strategaeth Drawsbynciol 'Ffyniant i Bawb', wedi iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet.
- 2.2 Cytunodd y Bwrdd fod angen arweinyddiaeth gadarn i weithredu'r dull gweithredu trawsbynciol a bod yn rhaid i gynllun gweithlu'r sefydliad fod yn gydnaws â'r Strategaeth. Clywodd y Bwrdd y byddai gwaith ar allu yn y dyfodol hefyd yn ategu'r ffordd newydd o weithio.
- 2.3 Byddai gwaith yn cael ei wneud dros yr haf i ddatblygu cynnig blaenoriaethu, ynghyd â chynllun ymgysylltu. Cytunwyd bod cyfathrebu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn hollbwysig yn hyn o beth. Cytunodd y Bwrdd y dylai ystyried rhannu gwybodaeth, amserlenni ar gyfer gweithgarwch a pherchenogaeth ffrydiau gwaith yn ei gyfarfod nesaf.

## Corfforaethol

### 3. **Y Trefniadau Pontio o'r Undeb Ewropeaidd (UE) [Eitem lafar]**

- 3.1 Rhoddodd Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog, y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd y Trefniadau Pontio o'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys yr hyn a fyddai'n debygol o fod yn y Bil Diddymu.
- 3.2 Roedd swyddogion yn parhau i lunio papurau polisi ar agweddau allweddol ar y trefniadau pontio. Cytunwyd y dylid ystyried lledaenu'r Papur Gwyn 'Sicrhau Dyfodol Cymru' yn ehangach, yn arbennig o fewn y gymuned academiaidd yng Nghymru.

### 4. **Y Datganiad Llywodraethu Drafft [Bwrdd (17)031]**

- 4.1 Ystyriodd y Bwrdd y Datganiad Llywodraethu drafft i'w gynnwys yn y Cyfrifon Blyneddol i'w cyhoeddi. Roedd y datganiad yn amlinellu prif ffynonellau sicrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ) y Grwpiau, Datganiadau Sicrwydd Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y Grwpiau, a sicrwydd ffurfiol gan ystod o ddarparwyr. Byddai'r Adroddiad Sicrwydd Blyneddol yn cael ei gylchredeg i'r Bwrdd.
- 4.2 Cytunwyd y dylai aelodau'r Bwrdd gysylltu'n uniongyrchol â Phennaeth yr Uned Llywodraethu Corfforaethol os bydd ganddynt eitemau ychwanegol i'w cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu.
- 4.3 Nododd y Bwrdd fod llai o achosion o golli data wedi digwydd yn 2016/17 nag yn 2015/16. Diolchwyd i Gillian Baranski, Prif Arolygydd AGGCC, Allan Boyd, y Prif Swyddog Diogelwch, a Kathryn Jenkins, y

## SWYDDOGOL

Dirprwy Brif Swyddog Diogelwch, am eu gwaith yn lleihau achosion o golli gwybodaeth yn AGGCC.

- 4.4 Cytunwyd y dylai'r Datganiad Llywodraethu gael ei roi ar ddechrau'r Cyfrifon Blynyddol.
- 4.5 Cytunwyd y dylai trafodaeth ar ganfyddiadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ynglŷn â systemau corfforaethol gael ei chynnal yn un o gyfarfodydd yr Uwch Dîm.
- 4.6 Cytunwyd y dylai Adroddiad Blynyddol ARC gyfeirio at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru bellach yn ymateb i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru.

## Eitemau Rheolaidd

### 5. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [Eitemau llafar]

#### *Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol*

- 5.1 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Natalie Pearson, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu, a'i thîm am eu gwaith ar ddigwyddiad yr Uwch Wasanaeth Sifil ar arweinyddiaeth a gallu yn y dyfodol.
- 5.2 Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd y byddai'r Bwrdd yn parhau i dreialu BoardPad i hwyluso cyfarfodydd di-bapur y Bwrdd am 12 mis arall.
- 5.3 Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf am yr hyn a achosodd y methiannau yn y systemau TGCh yr wythnos honno. Trafodwyd y modd y cafodd staff wybodaeth pan oedd systemau i lawr. Cytunwyd y dylai ymarfer parhad busnes ddechrau gael ei gynllunio fel mater o frys.

#### *Adroddiadau Eithrio*

- 5.4 Clywodd y Bwrdd fod digwyddiad Civil Service Live yng Nghaerdydd wedi bod yn llwyddiannus a bod mwy o bobl na'r disgwyl wedi mynd iddo. Rhoddodd y digwyddiad gyfle gwych i dynnu sylw at brosiectau pwysig yng Nghymru.
- 5.5 Clywodd y Bwrdd hefyd fod enghreifftiau rhagorol o weithio ar draws y sefydliad wedi eu gweld yn ystod yr wythnosau diwethaf, er enghraifft grŵp sicrwydd yr Economi a'r Seilwaith, a chytunwyd y dylai'r sefydliad gael gwybod amdanynt.
- 5.6 Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf am: yr Adolygiad Seneddol o system gofal y GIG; Cynhadledd Confederasiwn GIG y DU a oedd wedi dangos y dulliau gweithredu arloesol sydd ar waith yn y GIG yng Nghymru; y cynnydd o ran datblygu'r cwricwlwm newydd a'r paratodau ar gyfer canlyniadau carfan gyntaf TGAU diwygiedig; a'r Wythnos Gydraddoldeb.

## **SWYDDOGOL**

### **6. Newyddion diweddaraf yr Is-bwyllgorau**

- 6.1 Fel aelod o'r Pwyllgor Gweithrediadau, adroddodd Joanna Jordan, y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Llywodraethau a Chorfforaethol y GIG, fod y Pwyllgor Gweithrediadau, yn ei gyfarfod diwethaf, wedi rhoi ystyriaeth i gynigion ar gyfer gwella'r broses o greu gwybodaeth reoli a'i hansawdd yn y sefydliad, i weithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, i ddefnyddio Cynlluniau Gwella Perfformiad, ac i gynnig ar gyfer darparu sicrwydd o ran lleoliad swyddogion tra eu bod yn teithio ar fusnes at ddibenion diogelwch.
- 6.2 Yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil, soniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y pwyllgor wedi cymeradwyo recriwtio dwy rôl Dirprwy Gyfarwyddwr arbenigol.

### **7 Unrhyw fater arall**

- 7.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau i'w nodi.

### **Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 3 Gorffennaf 2017**